Kirsty McHugh
Prif Weithredwr, Ymddiriedolaeth Gofalwyr
2-6 Boundary Row, Llundain SE1 8HP
kmchugh@carers.org

Y Gwir Anrhydeddus Rachel Reeves AS

Canghellor y Trysorlys

Trysorlys EF, 1 Horse Guards Road, Westminster, Llundain SW1A 2HQ

Drwy e-bost: rachel.reeves.mp@parliament.uk

Annwyl Ganghellor,

Cynaliadwyedd sefydliadau gofalwyr lleol yn dilyn newidiadau i gyfraniadau Yswiriant Gwladol Cyflogwyr

Ysgrifennwn i ddisgrifio canlyniadau enbyd y newidiadau arfaethedig i gyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr ar y 130 o wasanaethau gofalwyr lleol yn y Rhwydwaith Ymddiriedolaeth Gofalwyr. Yn ddi-eithriad, bydd gwasanaethau sy'n hanfodol i gyflawni dyletswyddau statudol a chefnogi gofalwyr di-dâl i allu parhau i fod yn sylfaen i'r GIG yn cael eu colli.

Gyda'n gilydd, rydym yn cyrraedd dros filiwn o ofalwyr di-dâl ledled y Deyrnas Unedig bob blwyddyn, gan eu cefnogi â gwasanaethau hanfodol sy'n caniatáu iddyn nhw barhau yn eu rôl ofalu. Mae'r gwasanaethau cymorth hyn i ofalwyr yn rhan hanfodol o seilwaith iechyd a gofal cymdeithasol lleol, gan weithio law yn llaw gyda'r awdurdodau lleol a'r GIG. Gyda 70% o'u cyllid yn dod o gontractau statudol, a fawr ddim llwybrau i ehangu nac amrywio incwm, mae'r gwasanaethau hyn yn arbennig o fregus yn wyneb costau ychwanegol.

Mae'r gwasanaethau hyn eisoes yn cael trafferth ateb y galw cynyddol. Mae gofalwyr di-dâl, a menywod i raddau anghymesur, wedi bod yn ysgwyddo'r faich sy'n deillio o wasanaethau gofal cymdeithasol sydd wedi cael eu torri i'r byw. Rydym yn darparu seibiant mawr ei angen, gwasanaethau rhyddhau o'r ysbyty, gwasanaethau gofalwyr ifanc, gwasanaethau cynyddu incwm a chymorth i ofalwyr dementia. Heb y cymorth hwn, ni fyddai modd i awdurdodau lleol gyflawni eu dyletswyddau statudol.

Nid yw hanner ein gwasanaethau wedi derbyn cynnydd yn eu cyllid gan awdurdodau lleol na chontractau'r GIG yn y blynyddoedd diwethaf. O ganlyniad, mae llawer wedi bod yn cael trafferthion ariannol ac yn dogni gwasanaeth i ofalwyr sydd mewn angen dirfawr. Mae gwaith modelu'r cynnydd yn Yswiriant Gwladol cyflogwyr yn dangos y bydd y gost i'n gwasanaethau yn uwch na £3 miliwn y flwyddyn, sy'n ddigon i achosi rhai gwasanaethau i gau. Mae hyn ar ben cost o £4 miliwn drwy'r cynnydd yn y Cyflog Byw Cenedlaethol. Credwn felly fod achos cryf i wasanaethau gofal cymdeithasol y sector gwirfoddol lleol, fel ein un ni, gael yr un eithriad a nodir i'r GIG a'r sector cyhoeddus.

Bydd methu â gweithredu i eithrio gwasanaethau gofal cymdeithasol y sector gwirfoddol, gan gynnwys y rhai i ofalwyr di-dâl, yn gweithio'n uniongyrchol yn erbyn adduned y Llywodraeth i symud gwasanaethau'r GIG 'o'r ysbyty i'r gymuned'. Y gofalwyr rydym yn eu cefnogi yw asgwrn

cefn y cymorth cymunedol y mae pobl â chyflyrau iechyd ac anableddau yn dibynnu arno, boed hynny drwy gymorth o ddydd i ddydd neu drwy wardiau rhithwir. Ac, yn wahanol i feddygon iau neu nyrsys, nid ydynt yn mynd ar streic a gallai ymddangos felly ei bod yn hawdd eu hanwybyddu.

Ond, yn eu tro, mae angen i ni roi bargen deg i ofalwyr di-dâl. Ein pryder yw bod costau uwch i gyflogwyr yn mynd i arwain at ddiwedd gwasanaethau i ofalwyr di-dâl yn y gymuned, a fydd yn ei dro yn arwain at faich uwch ar y GIG. Gobeithiwn felly, fel rhywun sydd eisoes wedi profi ei bod yn gyfaill i ofalwyr di-dâl drwy y newidiadau i'r Lwfans Gofalwyr, bod modd sicrhau ffordd ymlaen i ddiogelu gwasanaethau gofalwyr lleol.

Yn gywir,

Kirsty McHugh – Prif Weithredwr yr Ymddiriedolaeth Gofalwyr

Alison Harries – Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth Gofalwyr Gorllewin Cymru, a chynrychiolydd Bwrdd Cynghori Cymru

Alison Taylor – Prif Weithredwr Carers First, a Chadeirydd Rhwydwaith Rhanbarthol De-ddwyrain Lloegr

Allegra Lynch – Prif Weithredwr Carers Camden, a Chyd-Gadeirydd Rhwydwaith Rhanbarthol Llundain

Carl Tams – Prif Weithredwr y Ganolfan Cymorth Gofalwyr, a Chyd-Gadeirydd Rhwydwaith Rhanbarthol De-Orllewin Lloegr

Claire Dale – Prif Weithredwr Ymddiriedolaeth Gofalwyr Canol Lloegr, a Chadeirydd Rhwydwaith Rhanbarthol Canolog

Eglionna Treanor – Prif Weithredwr Canolfan Gofalwyr Wandsworth, a Chadeirydd Rhwydwaith Rhanbarthol Llundain

Holly Hoskisson – Prif Weithredwr Carers Bucks a Carers Milton Keynes, a Chyd-Gadeirydd Rhwydwaith Rhanbarthol De-Ddwyrain Lloegr

Ifor Glyn – Prif Weithredwr Canolfan Gofalwyr Abertawe, a chynrychiolydd Bwrdd Cynghori Cymru

Jacqui Orchard – Prif Weithredwr Canolfan Gofalwyr Caerfaddon a Gogledd Ddwyrain Gwlad yr Haf, a Chyd-Gadeirydd Rhwydwaith Rhanbarthol De-Orllewin Lloegr

Jennifer Twist – Prif Weithredwr Care for the Carers, ac aelod o Fwrdd Ymddiriedolaeth Gofalwyr Lloegr

Judith Hawcroft – Rheolwr Canolfan Gofalwyr Gogledd Argyll, a chynrychiolydd Bwrdd Cynghori yr Alban

Kate Davis – Prif Weithredwr Crossroads Care Rotherham, a Chyd-Gadeirydd Rhwydwaith Rhanbarthol Gogledd Lloegr

Miriam Martin, Prif Weithredwr Caring Together, a Chadeirydd Fforwm Partneriaid Rhwydwaith Rheoleiddiedig

Susanna Jones – Prif Weithredwr Canolfan Gofalwyr Swindon, a Chyd-Gadeirydd Rhwydwaith Rhanbarthol De-Orllewin Lloegr

Vicky Keeley – Prif Weithredwr Canolfan Gofalwyr Sefton, a Chyd-Gadeirydd Rhwydwaith Rhanbarthol Gogledd Lloegr